## Dywedoch Chi, Gwnaethom Ni

## Crynodeb o'r Adborth: Ymgynghoriad Adroddiad Cwmpasu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd Cynllun Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren

Ar ran y prosiect, hoffem ddiolch i bawb a roddodd o'u hamser i gymryd rhan yn ein hymgynghoriad cyntaf ar Gynllun Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren.

Gwnaethom ofyn am eich barn a'ch adborth ar Ddogfen Weledigaeth, a nododd ddull eang o reoli dŵr ar gyfer y dalgylch a fydd yn sail i ddatblygu Strategaeth fanylach, ac Adroddiad Cwmpasu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd a oedd yn amlinellu sut y bydd cynaladwyedd yn cael ei ymgorffori yn y broses o wneud penderfyniadau i gefnogi datblygiad y Strategaeth honno.

Yn gyffredinol, ymatebodd y cyfranogwyr yn gadarnhaol i ddull seiliedig ar ddalgylchoedd o reoli dŵr, archwilio atebion ar sail natur a'r amcanion cynaliadwy y mae'r bartneriaeth yn ceisio eu cyflawni.

Cafodd yr ymgynghoriad, a gynhaliwyd rhwng 9 Ebrill a 21 Mai 2024, **66 o ymatebion** gan amrywiaeth o unigolion a sefydliadau sy'n cynrychioli gwahanol fuddiannau ledled Cymru a Lloegr.

Diolch i'r canlynol:

- Cyngor Cymuned Bausley a Chrugion
- Cadw
- Cymdeithas Tir a Busnes Gwlad
- Cyngor Sir Powys
- Cyngor Plwyf Gorge
- IDD Management Group / ADA Cymru
- Cyngor Plwyf Kinnerley
- Fforwm Llifogydd Meverley
- Bwrdd Draenio Mewnol Melverley
- Ymddiriedolaeth Natur Sir Drefaldwyn
- Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Cei'r Trallwng / Clywedog / Grŵp Cyswllt Efyrnwy
- Protect Hafren and Glaslyn
- Save our Severn
- Severn Trent Water
- Fforwm Ucheldir Afon Hafren
- Siambr Fusnes Amwythig
- Water Resources West
- Natural England
- Amrywiol – unigolion a pherchnogion busnes preifat
- Y cymunedau ar draws Sir Amwythig a Phowys

### Themâu cyffredin a'n hymateb

Rydym wedi nodi rhai o'r themâu cyffredin a godwyd gennych a'r ffordd y byddwn yn ymgorffori eich adborth wrth i ni fynd rhagddo i ddatblygu'r Strategaeth.

| Thema | Dywedoch Chi | Gwnaethom Ni |
|---|---|---|
| **Mwy o ymgysylltu ar draws y dalgylch** | Roedd yr ymatebwyr yn croesawu'r ymgysylltu hyd yma ac yn edrych ymlaen at fod yn rhan o'r sgwrs a datblygiad cynigion, yn enwedig ar draws cymunedau Cymraeg y dalgylch. | Ym mis Medi, rydym yn bwriadu lansio un hyb ymgysylltu ar-lein dwyieithog i gymunedau a rhanddeiliaid ledled Cymru a Lloegr. Caiff hyn ei gefnogi gan sianeli pwrpasol ar y cyfryngau cymdeithasol a rhaglen ymgysylltu lle gewch gyfle i ddod i gwrdd â'r tîm a dysgu mwy am ddatblygu'r strategaeth. |
| **Ystyried cynlluniau, polisïau a chanllawiau lleol a rhanbarthol** | Ymatebodd yr ymatebwyr yn gadarnhaol i'r canllawiau a'r polisïau a restrir yn y deunydd ymgynghori (megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)). Darparodd nifer o ymatebwyr restrau o bolisïau a dogfennau canllaw ychwanegol ar gyfer adnoddau dŵr, lliniaru llifogydd, amaethyddiaeth, dangosyddion llesiant ac ati, y dylid eu hystyried yn fwy manwl yn ei barn nhw. | Erbyn hyn, mae'r tîm wedi cael yr holl sylwadau ac yn diweddaru'r Arfarniad o Gynaliadwyedd lle y bo'n berthnasol, gan sicrhau bod cynlluniau strategol, polisïau a strategaethau allweddol yn cael eu hystyried. |
| **Effeithiau cronnol** | Gofynnodd nifer o randdeiliad i'r prosiect sicrhau ei fod yn ymwybodol o'r bobl hynny sy'n gyfrifol am nifer o gynlluniau allweddol sy'n cael eu datblygu ar draws y dalgylch, yn enwedig ffermydd gwynt mawr a gynigir ym Mhowys, ac yn gweithio gyda'r bobl hynny. | Bydd tîm y prosiect yn cynnal cyfres o weithdai ymgysylltu ag ymgyngoreion statudol yn ogystal â'r rhai sydd â buddiannau tir ar draws y dalgylch i ystyried cyfyngiadau a chyfleoedd. Mae gan ein partneriaid awdurdod lleol, Cyngor Sir Powys a Chyngor Swydd Amwythig, ddealltwriaeth fanwl hefyd o ddatblygiadau allweddol sy'n cael eu cynnig, yn enwedig o ran ynni. Bydd effeithiau cronnol posibl gyda phrosiectau a strategaethau eraill yn cael eu hasesu fel rhan o'r Arfarniad o Gynaliadwyedd. |
| **Canolbwyntio ar amaethyddiaeth** | Mae ardal y prosiect yn cynnwys cyfran sylweddol o dir fferm ac amrywiaeth eang o fusnesau fferm gan gynnwys tir âr, llaeth, dofednod a da byw. Mae rhanddeiliaid yn gofyn i amaethyddiaeth, diogelwch bwyd a'r economi wledig gael eu hystyried yn flaenoriaethau wrth ddod o hyd i atebion i reoli perygl llifogydd yn lleol. | Mae'r prosiect yn bwriadu ymgysylltu'n benodol â'r gymuned ffermio i ddeall cyfleoedd a chyfyngiadau. Mae'r Rhaglen Arddangos eisoes yn cefnogi'r prosiect i feithrin perthynas â'r gymuned ffermio a deall beth sy'n gweithio'n dda ac ymhle. |

| | | |
|---|---|---|
| **Ansawdd y dogfennau ymgynghori** | Nododd mwyafrif yr ymatebwyr eu bod yn gwerthfawrogi’r manylder a ddarparwyd. Ystyriwyd y Map Stori yn arbennig fel cyflwyniad diddorol i'r prosiect. Caiff hyn ei gydbwyso ag adborth gan rai unigolion â diddordeb a gafodd rhywfaint o'r ddogfennaeth ychydig yn rhy dechnegol mewn mannau a gofynnwyd i wybodaeth gael ei symleiddio ar gyfer cynulleidfa ehangach mewn ymgynghoriadau yn y dyfodol. | Bydd sianeli ymgysylltu newydd yn cael eu datblygu i gyfathrebu hynt y prosiect a hysbysu rhanddeiliaid yn well. Byddwn yn sicrhau bod crynodebau annhechnegol yn rhoi cyfarwyddyd i ddogfennau technegol ar gyfer y bobl hynny sydd am archwilio'r wybodaeth yn fanylach. Bydd deunyddiau ymgynghori yn y dyfodol yn cael eu creu gyda'r adborth hwn mewn golwg er mwyn sicrhau cyfranogiad eang ar draws y dalgylch. |

## Y camau nesaf

Mae llawer o weithgareddau yn digwydd yn ystod y misoedd nesaf gan gynnwys:

- Bydd y tîm yn diweddaru methodoleg yr Arfarniad o Gynaladwyedd ar gyfer cam nesaf y prosiect yn unol â'r adborth a gafwyd
- Byddwn yn lansio hyb ymgysylltu ar-lein newydd a sianeli ar y cyfryngau cymdeithasol ym mis Medi 2024
- Byddwn yn lansio cylchlythyr prosiect newydd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y datblygiadau diweddaraf
- Byddwn yn cynnal nifer o weithdai gyda rhanddeiliaid allweddol i brofi syniadau cychwynnol ynghylch maint yr ymyriadau posibl o rai seiliedig ar natur i rai peirianyddol
- Byddwn yma ac acw yn eich cymunedau yn siarad am y prosiect ac yn rhoi cyfle i chi ddysgu mwy a chwrdd â rhai o’r tîm – byddwn yn cyhoeddi calendr o ddigwyddiadau ar y hyb ymgysylltu ar-lein newydd.